



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 49
TACHWEDD 2012

Yn ddiau bu'r wythnosau diwethaf yn rhai trist iawn yn ein hanes fel dynoliaeth wrth inni glywed am ffolineb a chreulondeb pobl tuag at ei gilydd ymhob rhan o'r byd. Mae'r hyn a ddigwyddodd ym Machynlleth, Wrecsam a Phrestatyn y tu hwnt i'n dirnadaeth; felly hefyd y rhyfela parhaus yn Namascus, Kabul a Kaduna (gogledd Nigeria). Ymhlith yr holl ddigwyddiadau erchyll yma hoffwn gyfeirio at ddau hanesyn yn fwyaf arbennig a hawliodd benawdau'r newyddion yn ddiweddar.

Ar y 9fed o Hydref saethwyd Malala Yousafzai, merch ifanc bymtheg oed tra'n teithio adref o'r ysgol ar fws gyda'i ffrindiau. Y Taliban oedd yn gyfrifol am y weithred fileinig hon a hynny am fod Malala wedi bod yn hyrwyddo ac yn ymgyrchu dros addysg i ferched ym Mhacistan. Gwyddom am wrthwynebiad ffyrnig y Taliban i unrhyw beth sy'n ymwneud â hawliau merched ac yr oedd yr ymosodiad arni yn ymgais i'w thawelu a rhoi diwedd ar ei gwaith o ymgyrchu. Anafwyd Malala yn ddifrifol ac yn fuan wedyn fe'i cludwyd i'r ysbyty ym Birmingham am driniaeth bellach. Disgrifiwyd hi gan un o weinidogion Llywodraeth Pacistan fel symbol o ddewrder a phenderfyniad.

Yna, ar brynhawn dydd Gwener, y 19eg o Hydref daeth y newyddion am ddigwyddiad erchyll arall, y tro hwn yng Nghaerdydd, pan yrrwyd fan wen i fewn i bobl oedd yn cerdded ar hyd strydoedd prysur y ddinas ar yr union adeg pan oedd rhieni wedi bod yn hebrwng eu plant o'r ysgol. Anafwyd 13 o bobl ac yn drist iawn bu farw un wraig, 32 mlwydd oed, o'r enw Karina Menzies, wrth iddi geisio amddiffyn ei phlant rhag y gyrrwr gwallgof.

Er bod yna gryn bellter rhwng strydoedd Pacistan a Chaerdydd roedd yna un peth yn gyffredin yn y ddau ddigwyddiad yma, ar wahân i'r trais, sef dewrder dwy ferch. Dangosodd Malala a Karina ddewrder aruthrol wrth iddynt geisio diogelu yr hyn oedd yn hollbwysig iddynt Yn achos Malala ceisiodd amddiffyn hawliau merched i dderbyn addysg yn wyneb gwrthwynebiad di-reswm y Taliban. Yn achos Carina safodd hon i amddiffyn ei phlant rhag gweithred gwyllt y gyrrwr. Mae'n siwr y bydd trigolion Pacistan a Chaerdydd yn cofio am ddewrder Malala a Karina am flynyddoedd maith i ddod ac y bydd y ddwy yn fodd i ysbrydoli eraill i weithredu'n wrol.

Mawr obeithiwn na fydd angen i'r un ohonom wynebu sefyllfaoedd tebyg i'r rhai a wynebodd Malala Yousafzai a Karina Menzies. Ond yn ddi-os, bydd pawb ohonom yn gorfod wynebu stormydd o ryw fath yn ystod ein bywydau a bydd gofyn i ninnau hefyd fagu dewrder a gwroldeb wrth deimlo brathiad y gwynt ynghanol y storm. Dyma'r dewrder a ddarganfyddodd y Salmydd wrth iddo ddatgan: *Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm gwaredigaeth, rhag pwy yr ofnaf? Yr Arglwydd yw cadernid fy mywyd, rhag pwy y dychrynaf?* (Salm 27:1) Dyma'r dewrder a ddangosodd yr Iesu wrth wynebu'r awdurdodau Iddewig a Rhufeinig a throedio llwybr y groes a datgan: *Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i.* (Luc22:42) Dyma'r dewrder a ddarganfyddodd yr Apostol Paul pan ddywedodd *'Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.'* (Philipiadaid 4:13)

Pan ddaw cysgodion oer y tywyllwch ar ein gwarthaf, boed i ninnau ddal gafael yn dynn ar ein ffydd sydd yn abl i'n nerthu bob amser ar hyd llwybrau dyrys bywyd.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS TACHWEDD 2012

Cyhoeddwr y Mis: Richard Wyn Davies	Organydd y Mis: Mair Evans	
4 Tachwedd 10.30yb 2.30yp	Clwb Sul o dan arweiniad Mrs Ceri Williams Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun Sandra
11 Tachwedd 9.30yb	Oedfa Deuluol : Gweinidog Sylwer ar yr amser - bydd y plant yn cyflwyno eu bocsys <i>Operation Christmas Child</i>	
18 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Bregethu Y Parchg Peter Thomas	Gofal y Te: l'w drefnu:
25 Tachwedd 10.30yb	Oedfa Bregethu: Gweinidog	
2 Rhagfyr 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog Sul Cyntaf yr Adfent <i>O! tyred di, Emanwêl</i>	Gofal y Cymun: l'w drefnu:

I'CH DYDDIADUR

5 Tachwedd: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Nghanolfan San Paul 12.15 – 1.30yp.

8 Tachwedd: Clwb CIC: Festri'r Garn: Noson Gemau o dan arweiniad Eleri am 7yh

11 Tachwedd: Sul y Cofio Gwasanaeth wrth y Gofeb 10.45yb

14 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

21 Tachwedd: Cymdeithas y Penrhyn: Brian Davies yn sôn am ei gyfrol newydd *Salem Soldier* am 7.30yh

22 Tachwedd: Clwb CIC: Festri'r Garn: Noson yng nghwmni Criw Coleg y Bala am 7yh

27 Tachwedd: Cylch Darllen y Beibl yn Festri Horeb 7.30. Byddwn yn darllen Philipiaid 4.

28 Tachwedd: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

30 Tachwedd: Cymdeithas Horeb: Coginio ar gyfer y Nadolig yng nghwmni Meryl yn Festri Horeb. Byddwn yn croesawu aelodau Bethel atom. Cynhelir y cyfarfod yn y prynhawn. Amser i'w gadarnhau.

Lloffion

- Cydymdeimlwn yn ddwys â Laura ar golli ei phriod Victor yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Non a Colin Evans ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganed mab, Wil, i Lowri a Tom Guy.
- Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Griffiths ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Ganed mab, Dylan John Howells, i Gethin a Gemma, Abertridwr.
- Dymuniadau gorau i Colin sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Brysiwch wella.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i'r Noson Pwddin a Phaned gyda diolch arbennig i William am drefnu cwis hwylus iawn. Codwyd £130-00 i'r elusen Ffagl Gobaith.

Rhaglen y Gymanfa Ganu: Mae copïau ar gael o Raglen Cymanfa Ganu 2012/3 gan Ceris; pris £1.35

Operation Christmas Child: Ar fore Sul, 11eg Tachwedd am 9.30yb bydd y plant yn cyflwyno bocsys *Operation Christmas Child* a fydd yn cael eu cludo dramor i blant sydd mewn angen ar gyfer y Nadolig. Os hoffech chi baratoi bocs cysylltwch â Ceri neu'r Gweinidog am y manylion perthnasol.